# Y CYNGOR, 6.03.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Huw Edwards (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dewi Owen (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Stephen Churchman, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Christopher O'Neal, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Robert J.Wright ac Eurig Wyn.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Morwena Edwards, Iwan Trefor Jones a Dilwyn Williams (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol / Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Simon Glyn, Chris Hughes, Elin Walker Jones, Llywarch Bowen Jones, Dafydd Meurig, Peter Read, Liz Saville Roberts, Mair Rowlands a Mandy Williams-Davies.

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd John Wynn Jones.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2013 fel rhai cywir.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 9 ar y rhaglen – Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2014/15.

Cynghorwyd yr aelodau i ddatgan buddiant yn yr eitem a gadael y siambr os oedd aelod agos iawn o'u teulu yn cael ei effeithio gan y cynnig yn y datganiad polisi tâl.

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

Tynnwyd sylw hefyd gan y Swyddog Monitro at y ffaith bod yr eitem hon yn effeithio ar yr holl swyddogion oedd yn bresennol, yn enwedig y prif swyddogion, ac y byddent yn gadael y siambr drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem hon, ac eithrio'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, oedd angen arwain yr aelodau drwy ran o'r adroddiad oedd yn delio

gyda'r cynnig i staff ar y cyflogau isaf, cyn gadael wedyn rhag ofn bod yna unrhyw fater yn effeithio arnynt.

Er nad oedd cynnig i addasu eu telerau, datganodd y Prif Weithredwr, y tri Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Penaethiaid Democratiaeth a Chyfreithiol / Swyddog Monitro, Cyllid a Strategol a Gwella fuddiant personol yn yr eitem hon gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

'Roeddent o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y tri Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Penaethiaid Democratiaeth a Chyfreithiol / Swyddog Monitro a Strategol a Gwella y cyfarfod yn ystod yr holl drafodaeth, a'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid yn ystod rhan o'r drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn-gynghorydd Emyr Pugh a fu farw'n ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am eraill o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(b) Llongyfarchiadau / Dymuniadau Gorau / Diolchiadau

Llongyfarchwyd:-

(i) Haf Thomas, Cymhorthydd Clerigol yn yr Adran Adnoddau Dynol ar ei llwyddiant yn codi dros £45,000 at elusennau ac achosion da.

(ii) Mirain Evans o Chwilog ar ennill Can i Gymru 2014. Dymunwyd bob llwyddiant iddi yn cynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Ban Geltaidd.

Dymunwyd y gorau i Llyr Hughes o Rydyclafdy oedd yn ymgeisio am y teitl 'Dyn Cryfaf yn y Byd'.

Diolchwyd i weithlu'r Cyngor am eu gwaith caled yn ymateb i'r problemau tywydd garw diweddar.

(c) Nodyn

Anogwyd yr aelodau i gefnogi Pythefnos Masnach Deg. Nodwyd mai un o amcanion Masnach Deg oedd sicrhau bod gweithwyr yn y byd sy'n datblygu yn cael pris teg am eu gwaith ac yn cael gwell mynediad i farchnadoedd yn y gwledydd cyfoethocach.

Nodwyd bod yna ychydig o docynnau ar ôl ar gyfer Cyngerdd Elusennol y Cadeirydd ar yr 8fed o Fawrth yn Galeri, Caernarfon. 'Roedd yn argoeli i fod yn noson i'w chofio a byddai'r elw yn mynd tuag at Gymdeithas Alzheimer. Diolchwyd i Sian Ellis Williams, y Swyddog Dinesig, am hwyluso'r trefniadau.

**4. CWESTIYNAU**

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Be mae'r Cyngor wedi ei wneud i sicrhau buddsoddiad i Gaernarfon ers 2012?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi**

"Llwyddodd y Cyngor i ddenu buddsoddiad cyfalaf gwerth tua £3.5m fel rhan o Raglen Cydgyfeiriant Ewropeaidd 2007-13 ar gyfer Cynllun Canol Tref Caernarfon a'i weithredu cyn 2012.

Ers 2012, mae ymdrechion y Cyngor i sicrhau buddsoddiad i'r dref yn cynnwys :

- Cymorth o'r Gronfa Fuddsoddi Leol sydd wedi cynnig grant gwerth £58,645 i 7 o fusnesau gan arwain at fuddsoddiad o £187,939.
- Cymorth Cynllun Grant Gwella Tref sydd wedi cynnig grant gwerth £664,904 gan arwain at fuddsoddiad o tua £1.5m gan uwchraddio 26 eiddo yng nghanol y dref.
- Cyd-weithio gyda phartneriaid fel rhan o Fenter Glannau Caernarfon, sydd eisoes wedi sicrhau buddsoddiad gwerth tua £1.1m yn bennaf drwy Raglen Môn Menai a buddsoddiad preifat.
- Gwaredu Adeilad y Goleuad gan arwain at ailddatblygiad gwerth £2m.
- Ers 2013, mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn gyfrifol am weinyddu Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf sydd yn targedu adnoddau mewn wardiau penodol o'r dref.

Yn ogystal â'r uchod, mae buddsoddiadau hefyd wedi eu sicrhau gan wahanol wasanaethau ar draws y Cyngor (e.e. buddsoddiad £9.3m yn Ysgol yr Hendre, oedd â llawer o fuddsoddiad yn lleol a'r gwaith yn mynd yn lleol).

Rhaid cydnabod bod adnoddau buddsoddi'r Cyngor yn gyfyng, ac felly mae llwyddiant i ddenu buddsoddiad yn ddibynnol ar ffynonellau allanol.

Bu i'r Cyngor hefyd gyflwyno cais o dan Fframwaith Adfywio Llywodraeth Cymru yng Ngorffennaf 2013. 'Roedd y cais yn seiliedig ar ardal Dalgylch Caernarfon ac yn targedu £11m o'r Gronfa Adfywio gan gynnwys pecyn buddsoddi gwerth £34.5m i'r ardal - ond, yn anffodus, ni chafodd y cais ei gymeradwyo gan Lywodraeth Lafur Cymru."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Allwch chi fy sicrhau y bydd mwy o waith yn cael ei wneud i sicrhau arian i Gaernarfon a threfi drwy Wynedd y tro nesaf y bydd y pot arian yma'n agored?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi**

"'Rydym ni fel Cyngor yn ceisio ein gorau i gael yr arian yma. 'Roedd cais Gwynedd yn un cryf iawn ac 'rydym eto i gael gwybod gan Lywodraeth Llafur Cymru pam na chawsom mohono. 'Rydym wedi gofyn yn daer pam nad ydi o wedi dod i Wynedd ac wedi mynd i ardaloedd eraill, a dyna da ni angen wybod."

**5. CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET GWYNEDD IACH**

Derbyniwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Cynghorydd Paul Thomas, Aelod Cabinet Gwynedd Iach, ar waith y Cyngor i wella iechyd y boblogaeth, gan amlygu'r heriau a'r posibiliadau o safbwynt dylanwadu.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

(i) Gan gyfeirio at y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corfforol (NERS), awgrymwyd, er bod disgwyl i'r Cyngor ddarparu'r cyfleusterau, mai'r Gwasanaeth Iechyd sy'n elwa o hyn. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet fod peryg' o fynd i mewn i garfannau wrth feddwl yn y ffordd hynny a'r nod oedd cael pobl i ddechrau cysylltu eu hiechyd gyda mynd i ganolfan hamdden yn hytrach nag i ysbyty.

(ii) Awgrymwyd y dylai aelodau etholedig anelu i fod yn bencampwyr iechyd o fewn eu cymunedau.

(iii) Nodwyd na allai plant o deuluoedd tlawd fanteisio ar y cynllun Nofio am Ddim gan fod rhaid i rieni dalu am nofio gyda'u plant. Atebodd yr Aelod Cabinet fod yna gyfle i blant difreintiedig gael gwersi nofio am ddim.

(iv) Nodwyd nad oedd gan bobl ddifreintiedig y modd i brynu'r bwydydd gorau a'u bod yn dibynnu ar fwyd wedi'i brosesu, sy'n llawn siwgr, ac yn arwain at wahanol gyflyrau iechyd. Atebodd yr Aelod Cabinet fod yna gyswllt clir rhwng ardaloedd difreintiedig a chyflyrau iechyd penodol, ac er nad oedd gan y Cyngor lawer o ddylanwad mewn nifer o'r meysydd hyn, dylai wneud ei orau i ddylanwadu mewn ffordd bositif lle gallai.

(v) Nodwyd bod penderfyniad diweddar y Pwyllgor Cynllunio i wrthod cais i godi ystafell godi pwysau fechan yn groes i amcan y Cyngor i wella iechyd y boblogaeth. Atebodd yr Aelod Cabinet na allai wneud sylw ar y cais cynllunio, ond bod digon o gyfleoedd i bobl ymarfer codi pwysau o fewn y sir.

(vi) Awgrymwyd, gan fod gofyn i'r Cyngor sybsideiddio'r Gwasanaeth Iechyd a darparu gwasanaeth sydd o fudd iddynt, y dylid gofyn i'r Llywodraeth am gefnogaeth ariannol i wneud hynny. Cytunodd yr Aelod Cabinet â'r sylw gan nodi fod yna dystiolaeth fod cadw'n iach yn arwain at arbedion i'r Gwasanaeth Iechyd. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth honno'n ddigonol i newid meddyliau gweinidogion ar hyn o bryd.

(vii) Mynegwyd pryder bod diodydd a danteithion melys yn cael eu gwerthu i blant yn y peiriannau gwerthu ac yng nghaffis y canolfannau hamdden. Atebodd yr Aelod Cabinet y gwnaed colled ariannol eithaf sylweddol yn y canolfannau hamdden oherwydd y penderfyniad i dynnu bwydydd afiach allan o'r peiriannau gwerthu, ond gobeithid eu tynnu allan yn gyfan gwbl flwyddyn nesaf fel y byddai'n gost niwtral. Ni ellid newid bwydlen y caffis ar y funud oherwydd bod gan rai o'r tendrau flynyddoedd i redeg eto, ond byddai'r mater yn cael sylw ar yr amser priodol.

(viii) Nodwyd y gallai cynlluniau fel NERS fod yn fuddiol iawn, ond nad oedd digon o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut i fynd o gwmpas pethau fel hyn. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod pobl yn cael eu cyfeirio at y cynllun NERS drwy'r meddyg teulu ar hyn o bryd. Ychwanegodd fod y gwaith yn cael ei wneud gan dîm bychan arbenigol yn y canolfannau hamdden ac mai'r nod yn y pen draw oedd sicrhau bod holl staff y canolfannau yn arbenigo yn y meysydd yma. Nododd hefyd y ceisid cyfuno hyn gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Tîm Gyda'n Gilydd a Theuluoedd yn Gyntaf yn y gobaith o gyrraedd mwy o bobl a'u cyfeirio ymlaen at yr arbenigedd fydd yn gallu eu cynorthwyo gydag unrhyw gyflyrau iechyd.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Gwynedd Iach am ei gyflwyniad.

## 6. DATGANIAD POLISI TÂL AR GYFER 2014/15

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Polisi Tâl yn unol ag Adran 38(i) Deddf Lleoliaeth 2011, ynghyd ag argymhelliad y Cabinet i gynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf drwy ddileu'r ddau bwynt cyflog isaf o strwythur tâl y Cyngor.

Rhoddwyd ystyriaeth yn gyntaf i'r argymhelliad i gynyddu tâl y staff sy'n derbyn y cyflog isaf fel y gallai'r Pennaeth Cyllid fod yn bresennol i ymateb i unrhyw gwestiynau / sylwadau.

Mynegwyd cefnogaeth frwd gan sawl aelod i'r argymhelliad, ond 'roedd eraill, er yn gefnogol i'r egwyddor o dalu mwy i'r staff ar y cyflogau isaf, naill ai'n cwestiynu amseriad y cynnig a'r ffaith ei fod yn cael ei ariannu drwy gynnydd yn y Dreth Gyngor, neu'n bryderus nad oedd yn mynd yn ddigon pell. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

(i) Holwyd pryd fyddai'r Cyngor yn dal i fyny â'r cynghorau hynny sydd eisoes yn talu'r cyflog byw i'w staff. Atebodd y Prif Weithredwr fod hynny'n fater i'r aelodau, a hyderai fod gwneud y penderfyniad eleni i ddileu'r ddau bwynt isaf o'r strwythur tâl yn golygu bod modd ail-edrych ar y sefyllfa'r flwyddyn nesaf. Rhybuddiodd, fodd bynnag, rhag tanseilio'r gwaith a wnaed yn ystod y drefn Arfarnu Swyddi. Ychwanegodd yr Arweinydd fod nifer o gynghorau wedi ceisio gweithredu polisi cyflog byw ac y dylai'r Cyngor hwn geisio cadw hynny fel nod. Fodd bynnag, 'roedd rhai o'r cynghorau hynny hefyd wedi diswyddo cannoedd o weithwyr ar yr un pryd ac nid oedd yn awyddus i Wynedd weithredu polisi sy'n cynnig cyflog byw ar y naill law ac yn diswyddo gweithwyr ar y llall. Nod y Cyngor hwn oedd cynnig cyflog sy'n anrhydeddus ar gyfer yr holl weithlu, ac 'roedd modd gwneud hynny gam wrth gam tros gyfnod o amser.

(ii) Mynegwyd pryder ynglŷn ag amseriad y cynnig ar y sail ei bod yn fwriad beth bynnag gan Lywodraeth San Steffan godi'r isafswm cyflog cenedlaethol o £6.31 yr awr i £6.50. Gan y byddai hynny'n uwch na'r isafswm o £6.49 a delir gan y Cyngor hwn ar hyn o bryd, nid oedd gan y Cyngor lawer o ddewis yn y mater. Nodwyd ymhellach fod y cyflog a delir i'r gweithwyr hyn yn llawer rhy isel a gofynnwyd a fyddai modd rhoi mwy na'r hyn sy'n cael ei argymell iddynt. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd fod cyfanswm cost y cynnig ar gyfer 2,000 o weithwyr yn £250,000. Hwn oedd yr unig gynnig gerbron, ond 'roedd yn fodlon edrych ar y sefyllfa o flwyddyn i flwyddyn.

(iii) Awgrymwyd bod yr isafswm cyflog cenedlaethol yn cadw cyflogau i lawr a bod y Cyngor yn bod yn deg â'r gweithlu drwy godi cyflogau uwchlaw hynny. Cydnabyddid bod hyn yn mynd i gael effaith ar y Dreth Gyngor, ond 'roedd hwn yn arian fyddai'n cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol o fewn cymunedau Gwynedd.

(iv) Mynegwyd pryder bod amseriad y cynnig ynghlwm wrth y penderfyniad ar y Dreth Gyngor ac mai 0.4% o gynnydd ychwanegol yn y dreth fyddai'n talu amdano. Er y derbynnid ei bod yn iawn i weithwyr y Cyngor gael cyflog teg, byddai'n rhaid i weddill gweithlu Gwynedd aros ar yr isafswm cyflog o £6.31 ac wynebu'r cynnydd yn y dreth. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y cynnig wedi'i gyplysu gyda'r codiad treth uwch er mwyn gallu codi cyflog staff ar y lefel isaf heb ddiswyddo staff eraill i'w ariannu.

(v) Holwyd beth fyddai effaith gweithredu polisi cyflog byw ar lefel y Dreth Gyngor. Atebodd y Pennaeth Cyllid y byddai goblygiadau i lawer mwy o staff wrth wahanu swyddi ar raddfeydd cyfagos. 'Roedd £250,000 yn gyfystyr â chynnydd o 0.4% yn y dreth, felly byddai £1,000,000 ychwanegol yn mynd â'r Cyngor dros y cap o 5% a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Er na argymhellid unrhyw newid i dâl prif swyddogion, gadawodd y Pennaeth Cyllid y siambr cyn trafod gweddill yr adroddiad.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, eglurodd y Prif Weithredwr mai'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion oedd â'r cyfrifoldeb o ddatblygu'r Polisi Tâl ar gyfer sylw'r Cyngor ac na chodwyd unrhyw fater ynglŷn â chyflogau uwch swyddogion yn y cyfarfod ar 26 Chwefror.

Gadawodd y Prif Weithredwr y siambr fel y gallai'r Cyngor wyntyllu unrhyw fater arall, megis cyflog y Prif Weithredwr. O ganlyniad, 'roedd yr holl brif swyddogion allan o'r siambr yn ystod y bleidlais ar y mater.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhelliad i gynyddu tâl y staff sy'n derbyn y cyflog isaf a chynyddu'r Dreth Gyngor o 0.4% ychwanegol i ariannu'r newid, gan ail-edrych ar y polisi o flwyddyn i flwyddyn.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 22(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig.

**O blaid: (63)** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Stephen Churchman, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Christopher O'Neal, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Robert J.Wright ac Eurig Wyn.

**Yn erbyn: (0)**

**Atal pleidlais: (1)** Y Cynghorydd Jason Humphreys

Adroddodd y Cadeirydd fod y cynnig wedi cario.

Cynigiwyd ac eiliwyd i fabwysiadu'r Datganiad Polisi Tâl ac i beidio gwneud unrhyw newid i dâl prif swyddogion.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i dynnu'r cymal cyntaf o dan y pennawd "Ail-leoli" allan o'r Datganiad ar y sail na ddylid ail-gyflogi cyn-swyddogion sydd wedi derbyn taliadau diswyddo, ac y dylid yn hytrach wneud lle i bobl ifanc sy'n chwilio am waith yn y sir.

Mewn ymateb i'r gwelliant, eglurodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol fod yna gynsail cyfreithiol ar sail cydraddoldeb a gwahaniaethu sy'n golygu bod angen cynnwys y cymal yma yn y Polisi Datganiad Tâl. Nododd hefyd mai 11 yn unig o gyn-swyddogion a ail-gyflogwyd yn ystod 2012/13, heb gynnwys materion yn ymwneud ag ysgolion, a bod pob un ohonynt wedi'i gyflogi fel rhywun achlysurol yn gweithio nifer fechan iawn o oriau neu am gyfnod penodol tymor byr iawn.

Mewn ymateb i gais gan aelod, cytunodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol i ddarparu ystadegau ynglŷn â'r niferoedd a ail-gyflogwyd mewn ysgolion ac o fewn yr Adran Addysg.

Yn wyneb gofynion y gyfraith ynglŷn â'r cymal, cynghorodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol na ddylid symud ymlaen gyda'r gwelliant.

Nododd eilydd y gwelliant ei bod yn tynnu ei chefnogaeth i'r gwelliant yn ôl ar sail y cyngor cyfreithiol a gafwyd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf drwy ddileu'r ddau bwynt cyflog isaf o strwythur tâl y Cyngor.**

**(b) Ymgorffori'r newid hwn yn Natganiad Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2014/15 a chynyddu'r Dreth Gyngor o 0.4% ychwanegol i ariannu'r newid, gan ail-edrych ar y polisi o flwyddyn i flwyddyn.**

**(c) Mabwysiadu'r Datganiad Polisi Tâl (Atodiad A i'r adroddiad) yn ddarostyngedig i'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y newid yn y pwyntiau cyflog isaf gael ei gynnwys yn strategaeth ariannol y flwyddyn nesaf.**

**(ch) Peidio gwneud unrhyw newid i dâl prif swyddogion.**

## 7. CYLLIDEB 2014/15

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad ar y gyllideb i'w gosod ar gyfer 2014/15. Nododd, yn hanesyddol, ac yn unol ag ymarfer gorau, bod y Cyngor hwn wedi sefydlu ei gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig er mwyn sicrhau bod y gyllideb honno'n paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig. 'Roedd hyn wedi talu ar ei ganfed gan fod modd i'r Cyngor gynllunio unrhyw arbedion angenrheidiol yn rhesymegol heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog, allai arwain at y penderfyniadau anghywir o ran y buddion i'r dinesydd. I gloi, diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith darbodus i gadw'r Cyngor ar sail gadarn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau.

Llongyfarchwyd yr Aelod Cabinet a'r staff ar eu gwaith a nodwyd bod y ffaith na argymhellir torri gwasanaethau na diswyddo staff yng nghyllideb 2014/15 yn arwydd o'r cynllunio ariannol gofalus sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf.

Cynigiwyd ac eiliwyd cynyddu'r Dreth Gyngor 3.9%.

Nodwyd mai'r hyn na chyfeirir ato yn y gyllideb oedd yn destun pryder, yn arbennig y mesurau y gall y Cyngor ymgymryd â hwy i godi incwm a gwneud iawn am rai o'r colledion. Fel enghraifft o hyn, cyfeiriwyd at gost demograffi, yn arbennig i ofalu am yr henoed. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n dod i Wynedd i ymddeol ac 'roedd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol difrifol ar wasanaethau'r Cyngor. Nid oedd y sefyllfa'n gynaliadwy a holwyd a wnaed ymdrech i olrhain gwreiddiau'r bobl hyn. Nodwyd hefyd bod prisiau tai yng nghefn gwlad allan o gyrraedd pobl leol ac awgrymwyd, fel dull o gynorthwyo cymunedau gwledig y sir, y gallai'r Cyngor greu cronfa ar gyfer sefydlu cynllun rhannu ecwiti neu gynnig morgais i bobl leol. O dan gynllun o'r fath, petai rhywun yn methu talu'r morgais, byddai'r Cyngor yn sefyll yn y bwlch, yn gwerthu'r eiddo ymlaen ac yn adennill eu harian. Nodwyd ymhellach mai Gwynedd yw'r sir dlotaf yng Ngorllewin Ewrop ac nad oedd yn deg disgwyl i drigolion y sir dalu 0.4% yn ychwanegol o Dreth Gyngor er mwyn codi cyflog 2,000 o staff y Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5% a bod y £250,000 sydd ei angen i gynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf yn dod o'r balansau.

Mewn ymateb, eglurodd Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol, na ellid ariannu gwariant parhaol o falansau ac er, yn dechnegol, bod modd gwneud hyn am flwyddyn yn unig, byddai'n arwain at fwy o arbedion yn y pen draw.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

(i) Nid yw'r codiadau yn y Dreth Gyngor yn effeithio ar y tlotaf o fewn cymdeithas gan nad ydynt yn talu'r dreth. Y bobl fwyaf cyfoethog sy'n cyfrannu fwyaf at warchod y gwasanaethau sydd mor bwysig i'r bobl dlawd.

(ii) Bod gormod o sôn am bobl dlawd a phobl gyfoethog a bod mwyafrif poblogaeth y sir yn y canol, neu'r canol isaf, ac yn cael anhawster wynebu'r cynnydd yn y Dreth Gyngor .
(iii) Arian wrth gefn yw'r balansau ac mae'n arian pwysig iawn. Gallai'r sir wynebu rhagor o dywydd garw a gorfod mynd i'r balansau eto.
(iv) Mae yna golli swyddi'n digwydd yn barod ac mae'n bryd i'r Arweinyddiaeth sylweddoli fod gwaith mawr o'u blaenau. Mewn ymateb, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod y Cabinet yn llawn sylweddoli maint y broblem a bod angen i bawb fod yn rhan o hyn.
(v) Ei bod yn hawdd iawn tynnu ffigurau o'r awyr. Cafwyd digon o gyfle i drafod yn y seminarau aelodau ac 'roedd bellach yn unfed awr ar ddeg. Credid bod yr adroddiad yn taro balans rhwng sicrhau arbedion effeithlonrwydd a diogelu'r gwasanaethau.
(vi) Byddai'n gwneud synnwyr defnyddio'r balansau fel datrysiad i'r broblem am flwyddyn yn unig gan fod sôn bod yr economi'n gwella.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD**

**(1) Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet, sef:-**

**(a) Y dylid sefydlu cyllideb o £231,860,660 ar gyfer 2014/15 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £174,970,570 a chynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.9% fyddai'n golygu incwm Treth Gyngor o £55,186,100 gyda'r bwlch sy'n weddill i'w gyllido drwy ddefnyddio £1,703,990 o falansau'r Cyngor.**

**(b) Y dylid hefyd sefydlu rhaglen gyfalaf o £16.193m yn 2014/15 a £17.974m yn 2015/16 i'w ariannu o'r ffynonellau a ganlyn:-**

| **£'000** | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---|---|
| **Gofynion cyfalaf** | **16,193** | **17,974** |
| **I'w ariannu drwy** | | |
| **Darpariaeth cyfalaf yn y setliad** | **6,630** | **6,630** |
| **Grant tuag at ysgolion** | **724** | **5,503** |
| **Derbyniadau cyfalaf** | **1,476** | **930** |
| **Cyfraniad o refeniw** | **1,988** | **2.860** |
| **Benthyca darbodus** | **5,375** | **2,051** |
| **Cyfanswm ariannu** | **16,193** | **17,974** |

**(2) Y dylid nodi i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 7 Tachwedd 2013, gymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2014/2015 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf") :-**

**(a) 49,669.55 yw'r swm a gyfrifwyd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Gyngor am y flwyddyn.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor - Cymuned -**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 527.00 | Llanegryn | 151.58 |
| Aberdyfi | 934.66 | Llanelltyd | 279.33 |
| Abergwyngregyn | 113.64 | Llanengan | 1,963.04 |
| Abermaw | 1,094.53 | Llanfair | 314.56 |
| Arthog | 610.39 | Llanfihangel y Pennant | 210.18 |
| Bala | 752.60 | Llanfrothen | 215.34 |
| Bangor | 3,547.47 | Llangelynnin | 395.03 |
| Beddgelert | 314.13 | Llangywair | 127.18 |
| Bethesda | 1,633.31 | Llanllechid | 330.18 |
| Betws Garmon | 132.11 | Llanllyfni | 1,361.97 |
| Bontnewydd | 436.15 | Llannor | 883.51 |
| Botwnnog | 433.86 | Llanrug | 1,103.16 |
| Brithdir a Llanfachreth | 396.31 | Llanuwchllyn | 308.36 |
| Bryncrug | 328.58 | Llanwnda | 765.56 |
| Buan | 224.79 | Llanycil | 192.12 |
| Caernarfon | 3,429.57 | Llanystumdwy | 854.90 |
| Clynnog Fawr | 429.16 | Maentwrog | 279.91 |
| Corris | 294.42 | Mawddwy | 335.21 |
| Criccieth | 924.85 | Nefyn | 1,379.36 |
| Dolbenmaen | 607.33 | Pennal | 212.68 |
| Dolgellau | 1,189.94 | Penrhyndeudraeth | 737.36 |
| Dyffryn Ardudwy | 793.90 | Pentir | 964.63 |
| Ffestiniog | 1,662.17 | Pistyll | 238.74 |
| Harlech | 742.30 | Porthmadog | 1,956.57 |
| Llanaelhaearn | 428.08 | Pwllheli | 1,664.21 |
| Llanbedr | 312.06 | Talsarnau | 307.26 |
| Llanbedrog | 684.27 | Trawsfynydd | 501.03 |
| Llanberis | 756.11 | Tudweiliog | 444.48 |
| Llanddeiniolen | 1,781.23 | Tywyn | 1,541.52 |
| Llandderfel | 490.73 | Waunfawr | 555.55 |
| Llandwrog | 985.92 | Y Felinheli | 1,055.79 |
| Llandygai | 962.52 | Y Ganllwyd | 85.16 |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(3) Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2014/2015 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf.**

| | |
|---|---|
| **(a) £347,872,620** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf.** |
| **(b) £116,365,580** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf** |

| | |
|---|---|
| **(c) £231,507,040** | **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32 (4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn.** |
| **(ch) £174,722,289** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, ynghyd a'r grant ar gyfer y Cynllun Lleihau Treth Gyngor llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.** |
| **(d) £1,143.25** | **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3 (ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33 (1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn.** |
| **(dd) £1,598,520** | **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34 (1) o'r Ddeddf.** |
| **(e) £1,111.07** | **Sef y swm yn 3 (d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3 (dd) uchod â'r swm yn 2 (a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.** |

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor -**

| | £ | | £ |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,126.25 | Llanegryn | 1,137.46 |
| Aberdyfi | 1,135.91 | Llanelltyd | 1,132.55 |
| Abergwyngregyn | 1,128.67 | Llanengan | 1,133.99 |
| Abermaw | 1,147.07 | Llanfair | 1,131.73 |
| Arthog | 1,126.63 | Llanfihangel y Pennant | 1,131.65 |
| Bala | 1,132.99 | Llanfrothen | 1,131.97 |
| Bangor | 1,195.34 | Llangelynnin | 1,126.26 |
| Beddgelert | 1,136.04 | Llangywair | 1,127.91 |
| Bethesda | 1,143.86 | Llanllechid | 1,124.70 |
| Betws Garmon | 1,120.91 | Llanllyfni | 1,138.19 |
| Bontnewydd | 1,139.73 | Llannor | 1,125.40 |
| Botwnnog | 1,120.29 | Llanrug | 1,132.37 |
| Brithdir a Llanfachreth | 1,126.21 | Llanuwchllyn | 1,139.61 |
| Bryncrug | 1,131.38 | Llanwnda | 1,134.84 |
| Buan | 1,127.75 | Llanycil | 1,128.25 |
| Caernarfon | 1,165.64 | Llanystumdwy | 1,128.62 |
| Clynnog Fawr | 1,127.38 | Maentwrog | 1,130.72 |
| Corris | 1,130.67 | Mawddwy | 1,125.24 |
| Criccieth | 1,147.83 | Nefyn | 1,146.17 |
| Dolbenmaen | 1,127.54 | Pennal | 1,136.46 |
| Dolgellau | 1,152.25 | Penrhyndeudraeth | 1,157.18 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,135.00 | Pentir | 1,141.01 |
| Ffestiniog | 1,157.09 | Pistyll | 1,129.92 |
| Harlech | 1,132.62 | Porthmadog | 1,138.16 |
| Llanaelhaearn | 1,141.44 | Pwllheli | 1,152.23 |
| Llanbedr | 1,143.12 | Talsarnau | 1,143.62 |
| Llanbedrog | 1,132.92 | Trawsfynydd | 1,135.02 |
| Llanberis | 1,136.20 | Tudweiliog | 1,124.12 |
| Llanddeiniolen | 1,118.37 | Tywyn | 1,140.91 |
| Llandderfel | 1,125.13 | Waunfawr | 1,132.67 |
| Llandwrog | 1,145.56 | Y Felinheli | 1,136.64 |
| Llandygai | 1,131.81 | Y Ganllwyd | 1,146.30 |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3 (e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34 (3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

(ff) **Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn <u>Atodiad 1</u>, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3 (f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir**

**gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

**(4) Nodi ar gyfer y flwyddyn 2014/2015 fod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 151.74 | 177.03 | 202.32 | 227.61 | 278.19 | 328.77 | 379.35 | 455.22 | 531.09 |

**(5) Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3 (ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30 (2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn <u>Atodiad 2</u> ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2014/2015 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

## 8. STRATEGAETH ARIANNOL 2014/15 – 2017/18

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn gosod allan fwriad y Cabinet ar gyfer ymdrin â'r sefyllfa ariannol tymor canolig er mwyn cael barn y Cyngor arno.

Nodwyd nad oedd yna gyfeiriad yn yr adroddiad at y posibilrwydd o ymuno â chynghorau eraill ac y byddai hynny'n newid yr holl ffigurau a'r tafluniadau. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod y tabl ym mhwynt 2.2 o'r adroddiad yn cyfeirio at Gomisiwn Williams, ond na ystyrid y byddai yna symud mawr ymlaen ar hynny yn ystod y rhaglen ariannol 4 blynedd nesaf.

Nodwyd bwriad y Cabinet, sef:-

(a) O ran y sefyllfa dros y 4 blynedd nesaf, y dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o dros £34m a daflunnir ar gyfer y 4 blynedd nesaf drwy gadw'r holl opsiynau yn agored (gan gynnwys y posibilrwydd o gynyddu'r Dreth Gyngor yn uwch na 3.5% a darganfod arbedion o'r gyllideb ysgolion) ac y dylid anelu i ddarganfod mwyafrif y bwlch drwy uchafu'r arbedion effeithlonrwydd a rheoli galw y gellir eu gwireddu.
(b) Y dylid sefydlu cyfundrefn gynhwysol ar gyfer sefydlu'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd ac unrhyw flaenoriaethu sydd angen ei wneud i sefydlu ymhle y byddai'n rhaid torri gwasanaethau.
(c) Yn y cyfamser, y dylid manteisio ar unrhyw gyfle sy'n codi i wireddu arbedion hyd yn oed os yw'n golygu peidio aros am y gyfundrefn dan sylw er mwyn sicrhau na chollir cyfle.

**PENDERFYNWYD cefnogi Strategaeth Ariannol y Cabinet.**

## 9. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2014/15

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2014/15, y Dangosyddion Darbodus, y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.

Nododd Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod y pwyllgor hwnnw wedi edrych ar y risgiau a'u bod yn fodlon gyda'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2014/15 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad C), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad D) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

## 10. CALENDR PWYLLGORAU 2014/15

Cyflwynodd yr Arweinydd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2014/15.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2014/15.**

## 11. ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR

Eglurodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol / Swyddog Monitro nad oedd angen i'r Cyngor ystyried yr eitem hon bellach gan fod y Cynghorydd Nigel Pickavance wedi gallu dod i'r cyfarfod hwn.

## 12. PROTOCOL AR Y DEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL GAN GYNGHORWYR

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd brotocol ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Gynghorwyr ac atodiadau iddo gan wahodd y Cyngor i'w fabwysiadu.

Gwahoddwyd sylwadau'r aelodau ar gynnwys y ddogfen.

(i) Nodwyd bod y sylw ym mharagraff 10 bod y protocol hwn yn berthnasol i aelodau yn eu rôl fel cynghorwyr a hefyd fel unigolion preifat yn groes i ganllawiau cenedlaethol a chynsail a osodwyd yn gyfreithiol, sef bod gan bob aelod yr hawl i fywydau preifat ar wahân i'w bywydau fel cynghorwyr. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol / Swyddog Monitro fod y Cod Ymddygiad yn datgan yn eglur y gall cynghorydd ddwyn anfri ar y Cyngor neu ar ei swyddogaeth fel cynghorydd wrth weithredu fel cynghorydd neu wrth weithredu fel unigolyn preifat. Byddai'r naill achos a'r llall yn groes i'r Cod Ymddygiad a byddai gan yr Ombwdsmon ddiddordeb yn y ddau fath o senario.

(ii) Na ddeëllid pwrpas y trydydd pwynt bwled ym mharagraff 12, sef na ddylid trydar ar fanylion cyfarfod, gan ei bod yn fwriad gan y Cyngor we-ddarlledu cyfarfodydd beth bynnag.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Protocol ar y Defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan Gynghorwyr.**

## 13. RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan Dîm Gohebiaeth Gweinidogol yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Dilwyn Morgan i'r cyfarfod diwethaf ynghylch diwygiadau i Fudd-dal Tai.

**PENDERFYNWYD nodi'r llythyr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 4.30pm.

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 902.57 | 1053.00 | 1203.43 | 1353.86 | 1654.72 | 1955.58 | 2256.43 | 2707.72 | 3159.01 |
| Aberdyfi | 909.01 | 1060.52 | 1212.02 | 1363.52 | 1666.52 | 1969.53 | 2272.53 | 2727.04 | 3181.55 |
| Abergwyngregyn | 904.19 | 1054.88 | 1205.58 | 1356.28 | 1657.68 | 1959.07 | 2260.47 | 2712.56 | 3164.65 |
| Abermaw | 916.45 | 1069.20 | 1221.94 | 1374.68 | 1680.16 | 1985.65 | 2291.13 | 2749.36 | 3207.59 |
| Arthog | 902.83 | 1053.30 | 1203.77 | 1354.24 | 1655.18 | 1956.12 | 2257.07 | 2708.48 | 3159.89 |
| Bala | 907.07 | 1058.24 | 1209.42 | 1360.60 | 1662.96 | 1965.31 | 2267.67 | 2721.20 | 3174.73 |
| Bangor | 948.63 | 1106.74 | 1264.84 | 1422.95 | 1739.16 | 2055.37 | 2371.58 | 2845.90 | 3320.22 |
| Beddgelert | 909.10 | 1060.62 | 1212.13 | 1363.65 | 1666.68 | 1969.72 | 2272.75 | 2727.30 | 3181.85 |
| Bethesda | 914.31 | 1066.70 | 1219.08 | 1371.47 | 1676.24 | 1981.01 | 2285.78 | 2742.94 | 3200.10 |
| Betws Garmon | 899.01 | 1048.85 | 1198.68 | 1348.52 | 1648.19 | 1947.86 | 2247.53 | 2697.04 | 3146.55 |
| Bontnewydd | 911.56 | 1063.49 | 1215.41 | 1367.34 | 1671.19 | 1975.05 | 2278.90 | 2734.68 | 3190.46 |
| Botwnnog | 898.60 | 1048.37 | 1198.13 | 1347.90 | 1647.43 | 1946.97 | 2246.50 | 2695.80 | 3145.10 |
| Brithdir a Llanfachreth | 902.55 | 1052.97 | 1203.40 | 1353.82 | 1654.67 | 1955.52 | 2256.37 | 2707.64 | 3158.91 |
| Bryncrug | 905.99 | 1056.99 | 1207.99 | 1358.99 | 1660.99 | 1962.99 | 2264.98 | 2717.98 | 3170.98 |
| Buan | 903.57 | 1054.17 | 1204.76 | 1355.36 | 1656.55 | 1957.74 | 2258.93 | 2710.72 | 3162.51 |
| Caernarfon | 928.83 | 1083.64 | 1238.44 | 1393.25 | 1702.86 | 2012.47 | 2322.08 | 2786.50 | 3250.92 |
| Clynnog Fawr | 903.33 | 1053.88 | 1204.44 | 1354.99 | 1656.10 | 1957.21 | 2258.32 | 2709.98 | 3161.64 |
| Corris | 905.52 | 1056.44 | 1207.36 | 1358.28 | 1660.12 | 1961.96 | 2263.80 | 2716.56 | 3169.32 |
| Criccieth | 916.96 | 1069.79 | 1222.61 | 1375.44 | 1681.09 | 1986.75 | 2292.40 | 2750.88 | 3209.36 |
| Dolbenmaen | 903.43 | 1054.01 | 1204.58 | 1355.15 | 1656.29 | 1957.44 | 2258.58 | 2710.30 | 3162.02 |
| Dolgellau | 919.91 | 1073.22 | 1226.54 | 1379.86 | 1686.50 | 1993.13 | 2299.77 | 2759.72 | 3219.67 |
| Dyffryn Ardudwy | 908.41 | 1059.81 | 1211.21 | 1362.61 | 1665.41 | 1968.21 | 2271.02 | 2725.22 | 3179.42 |
| Ffestiniog | 923.13 | 1076.99 | 1230.84 | 1384.70 | 1692.41 | 2000.12 | 2307.83 | 2769.40 | 3230.97 |
| Harlech | 906.82 | 1057.96 | 1209.09 | 1360.23 | 1662.50 | 1964.78 | 2267.05 | 2720.46 | 3173.87 |
| Llanaelhaearn | 912.70 | 1064.82 | 1216.93 | 1369.05 | 1673.28 | 1977.52 | 2281.75 | 2738.10 | 3194.45 |
| Llanbedr | 913.82 | 1066.12 | 1218.43 | 1370.73 | 1675.34 | 1979.94 | 2284.55 | 2741.46 | 3198.37 |
| Llanbedrog | 907.02 | 1058.19 | 1209.36 | 1360.53 | 1662.87 | 1965.21 | 2267.55 | 2721.06 | 3174.57 |
| Llanberis | 909.21 | 1060.74 | 1212.28 | 1363.81 | 1666.88 | 1969.95 | 2273.02 | 2727.62 | 3182.22 |
| Llanddeiniolen | 897.32 | 1046.87 | 1196.43 | 1345.98 | 1645.09 | 1944.19 | 2243.30 | 2691.96 | 3140.62 |
| Llandderfel | 901.83 | 1052.13 | 1202.44 | 1352.74 | 1653.35 | 1953.96 | 2254.57 | 2705.48 | 3156.39 |
| Llandwrog | 915.45 | 1068.02 | 1220.60 | 1373.17 | 1678.32 | 1983.47 | 2288.62 | 2746.34 | 3204.06 |
| Llandygai | 906.28 | 1057.33 | 1208.37 | 1359.42 | 1661.51 | 1963.61 | 2265.70 | 2718.84 | 3171.98 |
| Llanegryn | 910.05 | 1061.72 | 1213.40 | 1365.07 | 1668.42 | 1971.77 | 2275.12 | 2730.14 | 3185.16 |
| Llanelltyd | 906.77 | 1057.90 | 1209.03 | 1360.16 | 1662.42 | 1964.68 | 2266.93 | 2720.32 | 3173.71 |
| Llanengan | 907.73 | 1059.02 | 1210.31 | 1361.60 | 1664.18 | 1966.76 | 2269.33 | 2723.20 | 3177.07 |
| Llanfair | 906.23 | 1057.26 | 1208.30 | 1359.34 | 1661.42 | 1963.49 | 2265.57 | 2718.68 | 3171.79 |
| Llanfihangel y Pennant | 906.17 | 1057.20 | 1208.23 | 1359.26 | 1661.32 | 1963.38 | 2265.43 | 2718.52 | 3171.61 |
| Llanfrothen | 906.39 | 1057.45 | 1208.52 | 1359.58 | 1661.71 | 1963.84 | 2265.97 | 2719.16 | 3172.35 |
| Llangelynnin | 902.58 | 1053.01 | 1203.44 | 1353.87 | 1654.73 | 1955.59 | 2256.45 | 2707.74 | 3159.03 |
| Llangywair | 903.68 | 1054.29 | 1204.91 | 1355.52 | 1656.75 | 1957.97 | 2259.20 | 2711.04 | 3162.88 |
| Llanllechid | 901.54 | 1051.80 | 1202.05 | 1352.31 | 1652.82 | 1953.34 | 2253.85 | 2704.62 | 3155.39 |
| Llanllyfni | 910.53 | 1062.29 | 1214.04 | 1365.80 | 1669.31 | 1972.82 | 2276.33 | 2731.60 | 3186.87 |
| Llannor | 902.01 | 1052.34 | 1202.68 | 1353.01 | 1653.68 | 1954.35 | 2255.02 | 2706.02 | 3157.02 |
| Llanrug | 906.65 | 1057.76 | 1208.87 | 1359.98 | 1662.20 | 1964.42 | 2266.63 | 2719.96 | 3173.29 |
| Llanuwchllyn | 911.48 | 1063.39 | 1215.31 | 1367.22 | 1671.05 | 1974.87 | 2278.70 | 2734.44 | 3190.18 |
| Llanwnda | 908.30 | 1059.68 | 1211.07 | 1362.45 | 1665.22 | 1967.98 | 2270.75 | 2724.90 | 3179.05 |
| Llanycil | 903.91 | 1054.56 | 1205.21 | 1355.86 | 1657.16 | 1958.46 | 2259.77 | 2711.72 | 3163.67 |
| Llanystumdwy | 904.15 | 1054.85 | 1205.54 | 1356.23 | 1657.61 | 1959.00 | 2260.38 | 2712.46 | 3164.54 |
| Maentwrog | 905.55 | 1056.48 | 1207.40 | 1358.33 | 1660.18 | 1962.03 | 2263.88 | 2716.66 | 3169.44 |
| Mawddwy | 901.90 | 1052.22 | 1202.53 | 1352.85 | 1653.48 | 1954.12 | 2254.75 | 2705.70 | 3156.65 |
| Nefyn | 915.85 | 1068.50 | 1221.14 | 1373.78 | 1679.06 | 1984.35 | 2289.63 | 2747.56 | 3205.49 |
| Pennal | 909.38 | 1060.94 | 1212.51 | 1364.07 | 1667.20 | 1970.32 | 2273.45 | 2728.14 | 3182.83 |
| Penrhyndeudraeth | 923.19 | 1077.06 | 1230.92 | 1384.79 | 1692.52 | 2000.25 | 2307.98 | 2769.58 | 3231.18 |
| Pentir | 912.41 | 1064.48 | 1216.55 | 1368.62 | 1672.76 | 1976.90 | 2281.03 | 2737.24 | 3193.45 |
| Pistyll | 905.02 | 1055.86 | 1206.69 | 1357.53 | 1659.20 | 1960.88 | 2262.55 | 2715.06 | 3167.57 |
| Porthmadog | 910.51 | 1062.27 | 1214.02 | 1365.77 | 1669.27 | 1972.78 | 2276.28 | 2731.54 | 3186.80 |
| Pwllheli | 919.89 | 1073.21 | 1226.52 | 1379.84 | 1686.47 | 1993.10 | 2299.73 | 2759.68 | 3219.63 |
| Talsarnau | 914.15 | 1066.51 | 1218.87 | 1371.23 | 1675.95 | 1980.67 | 2285.38 | 2742.46 | 3199.54 |
| Trawsfynydd | 908.42 | 1059.82 | 1211.23 | 1362.63 | 1665.44 | 1968.24 | 2271.05 | 2725.26 | 3179.47 |

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudweiliog | 901.15 | 1051.35 | 1201.54 | 1351.73 | 1652.11 | 1952.50 | 2252.88 | 2703.46 | 3154.04 |
| Tywyn | 912.35 | 1064.40 | 1216.46 | 1368.52 | 1672.64 | 1976.75 | 2280.87 | 2737.04 | 3193.21 |
| Waunfawr | 906.85 | 1058.00 | 1209.14 | 1360.28 | 1662.56 | 1964.85 | 2267.13 | 2720.56 | 3173.99 |
| Y Felinheli | 909.50 | 1061.08 | 1212.67 | 1364.25 | 1667.42 | 1970.58 | 2273.75 | 2728.50 | 3183.25 |
| Y Ganllwyd | 915.94 | 1068.60 | 1221.25 | 1373.91 | 1679.22 | 1984.54 | 2289.85 | 2747.82 | 3205.79 |